**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Ken Skates AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Mawrth 2025

Annwyl Ken,

**Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Mawrth mewn perthynas â Bil Gwasanaethau Bysiau (Rhif 2) Llywodraeth y DU ("y Bil") a'r angen posibl am gydsyniad deddfwriaethol.

Rwy'n nodi bod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol bellach wedi'i osod mewn perthynas â'r Bil. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu ynghylch y ffaith eich bod wedi penderfynu hepgor darpariaethau o'r memorandwm hwnnw a allai gael eu datgymhwyso'n ddiweddarach mewn perthynas â Chymru.

Byddwch yn ymwybodol bod Rheol Sefydlog 29.2 yn ei gwneud yn ofynnol i aelod o'r Llywodraeth osod memorandwm pan fydd unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth berthnasol wrth gael ei gyflwyno i'r Tŷ cyntaf. Rwy'n cydnabod eich bod yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ar hyn o bryd ynghylch priodoldeb y darpariaethau a fyddai'n gymwys yng Nghymru ac yn cael effaith ynddi. Er gwaethaf hyn, o dan y Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol ichi osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n pennu i ba raddau y mae'r Bil yn gwneud (neu i ba raddau y byddai'n gwneud) darpariaeth berthnasol, a hynny er mwyn rhoi cyfle i'r Senedd graffu ar y darpariaethau hynny. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau y gellir eu datgymhwyso mewn perthynas â Chymru yn ddiweddarach yn ystod taith y Bil drwy Senedd y DU.

Mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Senedd, fel arfer heb fod yn hwyrach na phythefnos ar ôl i Fil

perthnasol gael ei gyflwyno yn Senedd y DU. Rwy'n nodi bod 12 wythnos wedi mynd heibio rhwng y dyddiad pan gafodd y Bil ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Arglwyddi, sef 17 Rhagfyr 2024, a'r dyddiad pan gafodd memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ei osod gerbron y Senedd, sef 11 Mawrth 2025.

Os oes gennym femorandwm cydsyniad deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Bil nad yw'n cynnwys rhai darpariaethau perthnasol, rwy'n pryderu y gallai hynny effeithio ar allu'r Senedd i graffu'n effeithiol ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) yn ystod cyfnodau cynnar ei daith. O dan Reol Sefydlog 29.3, mae'n ofynnol i'r memorandwm nodi a yw'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn briodol i ddarpariaeth berthnasol gael ei gwneud drwy gyfrwng y Bil, a gallai hyn ddarparu gwybodaeth gyd-destunol bwysig i'r Senedd pan ddaw i drafod egwyddorion cyffredinol y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru).

Os caiff y Bil ei ddiwygio yn dilyn trafodaethau, bydd angen ichi osod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, er mwyn caniatáu i'r Senedd wneud gwaith craffu priodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Busnes a Chadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS/MS
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.